# RHAGLEN

**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

**HYDREF 2019**

DATHLU 70 MLYNEDD O CBCDC

CERFLUNIAU PAPUR ANFERTH

ARCADIA GAN TOM STOPPARD

NOSON CALAN GAEAF I DEULUOEDD

GŴYL DDAWNS CAERDYDD

PENWYTHNOS SUPERBRASS

WE'RE GOING ON A BEAR HUNT

REQUIEM GAN FAURÉ

LONDON SINFONIETTA



1949– 2019

**Tocynnau 029 2039 1391**

**www.rwcmd.ac.uk**

**YN NHYMOR YR HYDREF 1949 CROESAWODD COLEG CERDD CAERDYDD EI GARFAN GYNTAF O FYFYRWYR I GASTELL CAERDYDD. 70 MLYNEDD YN DDIWEDDARACH RYDYM YN NODI SEFYDLU'R COLEG GYDA GWLEDD O GYFLAWNIADAU GAN EIN MYFYRWYR PRESENNOL...**

...o berfformiad Gala arbennig gyda **Cherddorfa'r WNO** a chantorion o Ysgol **Opera David Seligman** o dan arweiniad Carlo Rizzi i gerddoriaeth a drama o'r cyfnod gyda dathliad jazz y 40au gan y **Band Jazz Mawr** a chynhyrchiad newydd o ***Bus Stop*** **William Inge**. Byddwn hefyd yn datgelu trysorau o'r archifau mewn arddangosfa sy'n adrodd storïau rhai o'n cyn-fyfyrwyr dros y degawdau.

Mae llawer mwy na hynny i'w gael hefyd. Os ydych chi'n chwilio am rywbeth ychydig yn wahanol ar gyfer nosweithiau'r Hydref, mae ein digwyddiadau **20/20 Craff** yn gwobrwyo'r rheini sy'n archebu tocynnau'n gynnar ar gyfer cymysgedd o brofiadau perfformiadau newydd. Mae'r digwyddiadau yn cynnwys dawnswyr rhyfeddol **Rambert2**, dathliad **London Sinfonietta** o leiafsymiaeth, seiniau cyfareddol y gitarydd llithro Indiaidd **Debashish Bhattacharya** a cherddoriaeth hardd **Brìghde Chaimbeul**, y pibydd o'r Ynys Hir. Gyda llawer mwy i'w archwilio yn ystod y tymor, chwiliwch am y logo ar ddigwyddiadau dethol a dod yn un o'r 20/20 Craff!

Mae gwledd hefyd i deuluoedd gyda thymor arbennig o ddigwyddiadau ar gyfer pob oed. Ymunwch â ni ar gyfer danteithion Calan Gaeaf yn y cyntedd a pherfformiad arbennig o The **Mystery of the Raddlesham Mumps**, stori ysbrydion ecsentrig **Murray Lachlan Young** ar gyfer unrhyw un rhwng 7 a 107 oed; **The Bear Raymond Briggs** a siwrnai gyfareddol i gerddoriaeth a seiniau newydd gyda'r London Sinfonietta.

Caiff Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway ei lansio ym mis Medi gyda'r pianydd gwych o'r Ariannin **Ingrid Fliter**, sy'n adnabyddus am ei dehongliadau o waith Chopin, ac yna ym mis Tachwedd cyflwynir Barry Douglas gyda rhaglen o gampweithiau Rwsiaidd.

Os ydych chi'n mwynhau treulio nosweithiau Gwener yn gwrando ar y genhedlaeth nesaf o chwaraewyr jazz yn y cyntedd, beth am roi cynnig ar sioe yn y neuadd gyngerdd gyda rhai o fawrion y byd jazz? Bydd yr Hydref hwn yn canolbwyntio ar y piano, a byddwn yn dathlu 90 mlynedd ers geni'r pianydd jazz rhyfeddol Bill Evans gyda **Norma Winstone a Nikki Iles**, byddwn yn croesawu'n ôl **Aaron Parks** o Efrog Newydd gyda'i bedwarawd Little Big ac yn profi'r gerddoriaeth newydd drawiadol y mae **Kit Downes** wedi'i chreu ar gyfer ei albwm diweddaraf.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill mae penwythnos mawr o weithdai a chyngherddau pres yn cynnwys yr ensemble gwych **Superbrass**, cydweithrediad rhwng tair seren cerddoriaeth byd **Triawd AKA**; **Offeren Fauré** yn Neuadd Dewi Sant a dathliad 200 mlynedd Clara Schumann gyda **Lucy Parham** a **Patricia Hodge**.

Yn unol â'r arfer, down â'r flwyddyn i'w therfyn gyda thymor Nadolig o adloniant i'r teulu cyfan a fydd eleni'n cynnwys addasiad ffilm animeiddiedig o **We're Going on a Bear Hunt** gyda cherddorfa fyw a chynhyrchiad newydd disglair **Nadolig ar Broadway**.

*Dewch i ymuno yn y dathlu!*



Penny King
Pennaeth Rhaglennu Creadigol

## CYNNWYS HYDREF 2019

3 Digwyddiadau am Ddim
4 Cwmni Richard Burton
6 Cwmnïau ar Ymweliad
9 Cerddoriaeth
20 Nadolig yn y Coleg
21 Cyngherddau Awr Ginio
26 Coleg Iau a Stiwdio Actorion Ifanc

### 20/20 CRAFF

**Cadwch lygad** am gyfres o ddigwyddiadau yr hydref hwn yr ydym yn eu bathodynnu â'r logo'r 20/20 Craff. Mae rhywun craff yn ddeallus ac yn gallu gweld yn glir beth fydd neu beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r digwyddiadau hyn ychydig yn wahanol, mewn ffordd dda, ac yn gyfle i brofi rhywbeth na fyddech wedi ei ddarganfod fel arall. Byddwch yn weledigaethol ac ymunwch â ni i archwilio rhywbeth newydd y tymor hwn, a hefyd arbed arian - **bydd yr 20 tocyn cyntaf a werthir ar gyfer pob un o'r digwyddiadau hyn yn derbyn 20% i ffwrdd!**

LLUN CLAWR:
BENJAMIN MCCANN YN *CRAVE* YN THE OTHER ROOM (LLUN GAN KIRSTEN MCTERNAN, DYLUNIO SET A GWISGOEDD GAN ZOE BRENNAN A MIMI DONALDSON)

**Maes y Castell,**
**Parc Cathays, Caerdydd**
**029 2039 1391**

**Archebu ar-lein:**
**www.rwcmd.ac.uk**

**Cefnogir y rhaglen perfformiadau myfyrwyr gan *Cyswllt***
**www.rwcmd.ac.uk/connect**





**Gwe 27 Medi – Sad 26 Hydref**

## ARDDANGOSFA CERFLUNIAU PAPUR ANFERTH

Creadigaethau i'ch gadael yn geg agored gan ein cynllunwyr theatr yn yr arddangosfa flynyddol hon o gerfluniau papur anferth a grëwyd o bob dim a ddefnyddiwyd!

**Mynediad am Ddim**
**Oriel Linbury**

**Maw 1/8/15/29 Hydref 6pm**
**Maw 5/12/19/26 Tach 6pm**

## DYDDIAU MAWRTH SIAMBR

Dewch i glywed ein ensemblau siambr yn arddangos eu gwaith am ddim ar y rhan fwyaf o nosweithiau Mawrth.

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**

**Gwe 20 Medi – Gwe 6 Rhagfyr 5.30pm**

## AMSERJAZZTIME

Mae ein clwb jazz wythnosol, a gynhelir amser te dydd Gwener, yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'n cyflwyno dau fand bob wythnos ac yn cynnwys rhai o gerddorion mwyaf cyffrous Cymru.

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**



**Iau 3 Hydref a Iau 14 Tachwedd 6.30pm**

## BAR SŴN

Manteisiwch ar y cyfle i archwilio gweithiau electronig sy'n bodoli'n barod a rhai newydd gan adran gyfansoddi'r Coleg.

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**



**Mer 9 Hydref a Mer 13 Tachwedd 6pm**

## CABARET YN Y COLEG

Ymunwch â ni ar gyfer detholiad o ddanteithion lleisiol gwych o'r sioeau cerdd wedi'u perfformio gan ein cantorion sioe gerdd dawnus.

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**

**Sad 2 Tachwedd 12pm-4pm**

## DIWEDDGLO MAWR MIS HANES DU CYMRU

**2019 MOVERS, SHAKERS & LEGACY MAKERS**

Ymunwch â ni ar gyfer perfformiadau o gerddoriaeth a dawns i'r teulu cyfan sy'n arddangos artistiaid deinamig BAME.

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**

**Sad 16 Tachwedd 1.45pm**

## CYNGERDD Y CONSERVATOIRE IAU

Datganiadau am ddim ac anffurfiol wedi eu cyflwyno gan ein cerddorion iau talentog (8 i 18 oed).

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**

**Sad 16 Tachwedd 6pm**

## WHICH LEG ARE WE ON?

Cydweithrediad cyffrous rhwng y grŵp theatr gorfforol dros 60 oed, Good News From The Future, a Sam Barn a raddiodd mewn cyfansoddi o CBCDC, mew priodas rydd llawn ysbrydoliaeth o gerddoriaeth a symud.

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**

GŴYL DDAWNS CAERDYDD
CARDIFF DANCE FESTIVAL

**Sad 28 Medi – Gwe 1 Tachwedd**

## ARDDANGOSFA PEN-BLWYDD YN 70

Yn dathlu llwyddiannau ein myfyrwyr dros y degawdau, mae'r arddangosfa yma yn arddangos atgofion cyn-fyfyrwyr ochr yn ochr â darnau o'r archif. Ychwanegwch atgofion eich hunain i'r llinell amser rhyngweithiol a helpu ni i adeiladu darlun llawn o'r Coleg dros y 70 mlynedd diwethaf.

**Mynediad am Ddim**
**Oriel Linbury**

Cefnogir gan The Mosawi Foundation

**Mer 16 Hydref – Sad 26 Hydref 7.15pm**

## LONDON WALL

gan **John Van Druten**
Cyfarwddwr **Julia Thomas**
Drama bwysig sy'n amlygu anghydraddoldeb menywod a gyflogwyd fel teipyddion llaw fer mewn swyddfa brysur cwmni o gyfreithwyr yn Llundain yn y 1930au, y manteisir arnynt gan eu cydweithwyr gwrywaidd a'u hunig ddihangfa yw priodi.

Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25
**Stiwdio Caird**

**Gwe 18 Hydref – Sad 26 Hydref 8pm**
***Matinee* Gwe 25 Hydref 2.30pm**

## BUS STOP

gan **William Inge**
Cyfarwyddwr **David Bond**
Drama ramant a enwebwyd am Wobr Tony sy'n adrodd hanes cantores uchelgeisiol mewn clwb nos a'i chariad o gowboi ifanc obsesiynol sy'n sownd mewn tŷ bwyta yn ninas Kansas yng nghanol storm eira. Ysgrifennwyd gan un o brif ddramodwyr America yn yr ugeinfed ganrif. Cafodd addasiad enwog ohoni ei greu ar gyfer y sgrin ym 1956 gyda Marilyn Monroe yn serennu yn y ffilm.

Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25
**Theatr Bute**

**Iau 17 Hydref – Sad 26 Hydref 7.30pm**
***Matinee* Mer 23 Hydref 2.30pm**
***Perfformiad gydag Isdeitlau* Gwe 25 Hydref 7.30pm**

## STUPID F***ING BIRD

gan **Aaron Posner**
Ailgymysgiad hynod glyfar o *The Seagull* **Anton Chekhov**
Cyfarwyddwr **Patricia Logue**
Mae *Stupid F***ing Bird*, sy'n aml yn ddoniol iawn ac yn aml yn drasig, yn myfyrio'n ddi-flewyn ar dafod ar gelfyddyd, realiti, cariad a bywyd. Mae'n gofyn cwestiynau am beth yw ystyr POPETH ac yn chwarae'n hyfryd ar y syniad o siomedigaeth bodolaeth.
Derbyniodd ddrama Posner Wobr Charles MacArthur am Ysgrifennu Newydd Rhagorol yn 2014 a Gwobr Los Angeles Drama Critics Circle am Ysgrifennu yn 2015.

Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25
**Theatr Richard Burton**

CAP

**Os ydych chi'n bryderus am themâu a allai achosi gofid ac eisiau gwybodaeth bellach ynglŷn â sioe cyn archebu tocynnau, ffoniwch dîm y Swyddfa Docynnau ar 029 2039 1391 neu e-bostiwch boxoffice@rwcmd.ac.uk**


RAGE, LLUN GAN MARK DOUET


CRAVE, LLUN GAN KIRSTEN MCTERNAN

CWMNI RICHARD BURTON #RICHARDBURTONCOMPANY


CRAVE, LLUN GAN KIRSTEN MCTERNAN

**Mer 27 Tachwedd – Sad 7 Rhagfyr 7.15pm**

## DEALER'S CHOICE

gan **Patrick Marber**
Cyfarwyddwr **Oscar Toeman**
Wedi oriau maith, mewn ystafell islawr tŷ bwyta yn Llundain, mae gêm pocer yn cael eu chwarae. Ychydig o hwyl yw'r cyfan i fod, ond mae llawer yn y fantol ac mae pris ar ennill. Mae drama wych o ddoniol Patrick Marber yn archwilio diffygion dynion sydd wedi hen arfer â cholli.
Enilydd Gowbr Evening Standard am y Gomedi Orau a Gwobr Urdd yr Ysgrifenwyr am Ddrama Orau'r West End.

Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25
**Stiwdio Caird**

**Iau 28 Tachwedd – Sad 7 Rhagfyr 7.30pm**
***Matinee* Maw 3 Rhagfyr 2.30pm**
***Perfformiad wedi ei ddehongli a BSL* Iau 5 Rhagfyr 7.30pm**

## ARCADIA

gan **Tom Stoppard**
Cyfarwyddwr **Hannah Noone**
'Dyma'r amser gorau posibl i fod yn fyw, pan fo bron popeth roeddech chi'n feddwl eich bod yn ei wybod yn anghywir.'
Mae'r gorffennol a'r presennol yn niwlio yng nghampwaith modern Tom Stoppard am wirionedd ac amser. Beth yn union ddigwyddodd i Thomasina Coverly 180 o flynyddoedd yn ôl ym Mharc Sidley? Mae dau ysgolor modern yn mynd drwy stad wledig yn Swydd Derby ac yn dadorchuddio digwyddiadau rhyfeddol y gorffennol.

Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25
**Theatr Richard Burton**


HUNDRED PERCENT POSITIVE WELLNESS. LLUN GAN KIRSTEN MCTERNAN


CRAVE, LLUN GAN KIRSTEN MCTERNAN

**Gwe 29 Tachwedd – Sad 7 Rhagfyr 8pm**
***Matinee* Iau 5 Rhagfyr 2.30pm**

## DANCE NATION

gan **Clare Barron**
Cyfarwyddwr **Elle While**
'Efallai mai hon yw'r flwyddyn, dyma'r foment, dyma'r ddawns lle bydd ein bywydau'n dechrau!'
Rhywle yn America, mae chwyldro ar droed. Mae byddin o ddawnswyr cystadleuol yn barod i orchfygu'r byd, un ddawns ar y tro.

Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25
**Theatr Bute**



**Gwe 27 Medi 7.30pm a**
**Sul 29 Medi 2pm (Sgwrs ar ôl sioe gyda D.J Britton)**

## KAMIL AND FRANCIS

**Cyflwynir gan Theatr Cadair**

**PREMIERE BYD drama newydd gan D.J.Britton**

Mae Kamil and Francis yn nodi 800 mlynedd ers cyfarfyddiad rhyfeddol rhwng Sant Ffransis o Assisi a'r Swltan al-Kamil o'r Aifft yn y flwyddyn 1219. Mae drama D.J. Britton yn archwilio sut y gall siarad, gwrando a chyfeillgarwch personol orchfygu rhagfarn. Yn debyg i'w ddrama boblogaidd *The Wizard the Goat* and *The Man Who Won the War*, mae'r gwaith newydd hwn yn llawn hiwmor ac elfennau annisgwyl.

**Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25**
**Theatr Richard Burton 20/20**

LLUN © *FRANCIS AND THE SULTAN* GAN BR. ROBERT LENTZ, OFM, DIOLCH I FRANCISCAN FRIARS OF HOLY NAME PROVINCE

**Gwe 4 Hydref 7.30pm**

## SHANE SHAMBHU: CONFESSIONS OF A COCKNEY TEMPLE DANCER

Mae Shane Shambhu yn Aelod Cyswllt cwmni Complicite ac yn berfformiwr o fri, sy'n datgelu stori ei fywyd yn tyfu i fyny yn East Ham gyda'r freuddwyd o fod yn ddawnsiwr Indiaidd proffesiynol ym Mhrydain. Daw dawn adrodd stori gyfoes Shane yn fyw gyda thafluniad fideo, comedi stand-yp sy'n frith o gymeriadau o fywyd Shane a fydd yn ennyn bonllefau o chwerthin ymhlith y gynulleidfa.

**Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25**
**Theatr Richard Burton**
**20/20**






**Sad 5 Hydref 7.30pm** 14+ OED

## NATIONAL THEATRE WALES: PEGGY'S SONG

Ysgrifennwyd gan **Katherine Chandler**
Cyfarwyddwr **Phil Clark**

Noson y ceisiadau yw hi ar radio Ysbyty St Bevan ac mae sioe DJ Danny Walkman yn ei hanterth. Onid yw pawb yn hoff o gerddoriaeth? Mae gan bawb gân, ac un o ddoniau Danny Walkman yw cael pobl i ddweud pa gân yw eu cân hwy. Nid yw Peggy yn datgelu llawer, felly mae'r cloc yn tician i Danny ddatrys y cod, mynd heibio i'w holl flynyddoedd o brofiadau drwg er mwyn canfod a chwarae cân Peggy.

**Tocynnau £14 | £12 consesiynau D25**
**Theatr Richard Burton**





**Llun 28 Hydref 7pm**

## RTS CYMRU / WALES MEWN SGWRS GYDA RUSSELL T DAVIES

Bydd y Royal Television Society yn nodi trigain o flynyddoedd yng Nghymru gyda noson wedi'i neilltuo i'r ysgrifennwr ar gyfer y sgrin a chyfarwyddwr gweithredol sy'n hanu o Abertawe, Russell T Davies. Mae Russell wedi ysgrifennu sioeau arloesol megis *Queer As Folk* a *The Second Coming*, tra bod ei addasiad diweddar o A *Very English Scandal* ar gyfer y BBC wedi ennill nifer o wobrau. Eleni, cafodd ei ddrama ddiweddaraf, Years and Years, ganmoliaeth gan y beirniaid pan y'i darlledwyd. Byddwn yn sgwrsio gyda Russell am ei yrfa gyfan yn cynnwys wrth gwrs, *Doctor Who* a'i deulu o sioeau.

**Tocynnau £7 | £5 consesiynau**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Iau 31 Hydref 7pm** 7+ OED

## THE MYSTERY OF THE RADDLESHAM MUMPS

Ysgrifennwyd ac fe'i perfformir gan **Murray Lachlan Young** (Bardd Preswyl BBC 6 Music)
Cyfarwyddwr **Nina Hajiyianni**

Yn dilyn cyfres o farwolaethau cynamserol mae Crispin, sy'n 7 oed, yn etifeddu tŷ anferth gwag o'r enw Raddlesham Mumps. Mae'r bwtler yn sôn wrtho am farwolaethau rhyfedd a doniol iawn ei gyndeidiau hynod ecsentrig ac mae'r stori'n mynd ar drywydd comig tywyll.

Dechreuodd y sioe newydd sbon hon ar gyfer plant ei bywyd fel cerdd deulu epig 6000 o eiriau ac mae'n cymysgu adrodd storïau tywyll a barddoniaeth gyda sgôr wych, a fydd yn gwneud i chi a'ch teulu grynu a chwerthin yn uchel!

**Tocynnau £8**
**Theatr Richard Burton**

Profiad Realiti Rhithwir cyn-sioe am 6pm yn y cyntedd
Anogir gwisgo gwisg calan gaeaf!
Hyd y sioe: 1 awr



"GWYLIA DY HUN WAR HORSE, MAE'R PYPED GWYN HWN YN WYCH."
The Guardian



Sul 3 Tachwedd 2pm

3+ OED

## THE BEAR

Seiliedig ar y llyfr gan
**Raymond Briggs**
Addaswyd gan
**Pins and Needles Productions**

Un noson, a hithau mewn trwmgwsg, mae arth enfawr yn ymweld â Tilly. Mae ganddi dafod mawr du a bydd ei cheg mor fawr â'ch pen pan fydd yn dylyfu gên. Ond nid oes ofn ar Tilly. Ymunwch â Tilly a'i ffrind mawr wyn ar antur hudol. Gyda phypedwaith gwych, cerddoriaeth hyfryd a digon o chwerthin, mae The Bear yn brofiad a fydd yn aros yn y cof ar gyfer y teulu cyfan.

**Tocynnau £10**
**Theatr Richard Burton**
Hyd y sioe: 50 munud
Perfformiad Ymlaciedig

R



Iau 7 Tachwedd – Sad 9 Tachwedd 7.45pm

14+ OED

## ART

**Black RAT Productions a Sefydliad Glowyr y Coed Duon yn cyflwyno cyd-gynhyrchiad**
Gan **Yasmina Reza**
Cyfieithiad gan **Christopher Hampton**
Cyfarwyddwr **Richard Tunley**
*Tri dyn; un llun; trychinebau di-ri!*

Mae Serge wedi prynu llun mawr wedi'i baentio'n gyfan gwbl wyn am swm arswydus o arian. Mae'n gas gan Marc y llun ac ni all gredu y gallai ffrind iddo ef fod eisiau darn mor fodern. Mae Yvan yn ceisio, yn aflwyddiannus, i gymodi'r ddwy ochr ac mae'r canlyniadau'n ddoniol dros ben. Safonol, doniol, difyr a chynnes, mae ART yn ffenomenon. Un o'r comedïau mwyaf llwyddiannus erioed.

**Tocynnau £16 | £14 consesiynau**
**Theatr Richard Burton**
Cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Gwe 15 a Sad 16 Tachwedd 7.15pm

## RAMBERT2

**Rhan o Ŵyl Ddawns Caerdydd, mewn cydweithrediad â Choleg Brenhinol Cymru.**

Symudiadau newydd ffyrnig gan ddawnswyr newydd ffyrnig - mae dawnswyr cynnar yn eu gyrfa fwyaf cyffrous y byd yn dod â'u creadigaethau diweddaraf i Gaerdydd. Wedi'i ffurfio bob blwyddyn drwy chwilio ledled y byd am dalent newydd, mae dawnswyr Rambert2 yn cyfuno meistrolaeth dechnegol gydag egni crai. Maent yn gweithio gyda rhai o'r coreograffwyr rhyngwladol mwyaf cyffrous i greu darnau dawns sy'n cyfleu eu hysbryd eofn.

**Tocynnau £17 | £15 consesiynau D25**
**Theatr Richard Burton**
20/20



GŴYL DDAWNS CAERDYDD
CARDIFF DANCE FESTIVAL





Sul 1 Medi 4pm

## CÔR CENEDLAETHOL IEUENCTID CYMRU

**Tim Rhys Evans** arweinydd

Gan ddilyn ymlaen o gyfres cyngherddau llwyddiannus iawn llynedd, bydd Tim Rhys Evans yn dychwelyd i arwain côr o 80 o gantorion ifanc mwyaf talentog Cymru. Yn 2018, canmolwyd y côr am raglen a oedd yn cwmpasu'r canrifoedd ac eleni ceir rhagor o gerddoriaeth wych, yn cynnwys comisiwn newydd sbon gan y cyfansoddwr o Gymru Huw Watkins.

**Tocynnau £10 | £8 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**



Iau 19 Medi 7.30pm

## MANCHESTER COLLECTIVE: SIROCCO

Egni a llawenydd pur yw Sirocco - storm wych yn amrywio o Lamentatio a ysbrydolwyd gan Giovanni Sollima i set newydd o weithiau Affricanaidd sy'n dathlu cynhesrwydd ac amrywiaeth rhyfeddol traddodiadau gwerin o bob rhan o'r byd. Cerddoriaeth i'r bobl, gan y bobl yw hon; cerddoriaeth a fydd yn rhoi croen gŵydd i chi a gwên ar eich wyneb.

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**
20/20



Sad 21 Medi 7.30pm

## PRIDE OF WALES

**Band Tref Tredegar gyda Band y Gwarchodlu Cymreig**

Bydd Band Tref Tredegar, Pencampwyr Band Cymru 2019, yn cael cwmni Band y Gwarchodlu Cymreig am gyngerdd sy'n cynnwys y gorau mewn rhagoriaeth gerddorol bandiau pres a bandiau milwrol. Noson o repertoire poblogaidd a fydd yn eich gwneud yn falch i fod yn Gymry.

**Tocynnau £12 | £10 consesiynau**
**Neuadd Dora Stoutzker**






**Sul 29 Medi 11am**

## CYFRES PIANO RHYNGWLADOL STEINWAY: INGRID FLITER

**Beethoven** Sonata Op.31, Rhif 2
**Beethoven** Sonata Op.31, Rhif 3
**Chopin** Preliwdau Op.28

Preliwdau Chopin yw un o ryfeddodau cerddoriaeth piano'r bedwaredd ganrif ar bymtheg - pob un yn fyd bychan o ffantasi, lliw a theimlad rhamantus. Dewisodd *Gramophone* recordiad Ingrid Fliter o'r cylch fel un o'r '50 recordiad Chopin gorau', ond nid oes dim i'w gymharu â'u clywed yn cael eu perfformio'n fyw, ynghyd â dwy sonata Op.31 egnïol a chalonogol Beethoven.

**Tocynnau £16-£20 D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Iau 10 Hydref 7.30pm**

## MARK LOCKHEART A GWESTEION: DAYS ON EARTH

**Mark Lockheart ac Alice Leggett** sacsoffonau
**Rowland Sutherland** ffliwt
**Laura Jurd** trymped
**Liam Noble** piano
**John Parricelli** gitarau
**Tom Herbert** bas
**Dave Smith** drymiau

Mae'n bosibl mai *Days On Earth* yw gwaith mwyaf uchelgeisiol a phersonol Lockheart hyd yma. Wedi'i gyfansoddi dros y tair blynedd ddiwethaf a'i recordio'n ddiweddar yn stiwdios enwog Mark Knofler, mae'r gwaith yn cynnwys chwechawd jazz a cherddorfa 30 darn. Mae cyngerdd heno yn ail-weithiad arbennig o'r darn chwe symudiad wedi'i drefnu ar gyfer ensemble o sêr. Mae llawer o chwaeth eclectig a dylanwadau Lockheart i'w gweld yma, o waith byrfyfyr blaengar, gweadau cerddorfaol cyfoethog gydag ambell i gydnabyddiaeth i waith Bacharach a Stravinsky a ffync y 70au. Bydd y cyngerdd hefyd yn cynnwys cerddoriaeth newydd sbon wedi'i chyfansoddi'n arbennig ar gyfer y digwyddiad.

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**
**20/20**



"CYFOETHOG AC UCHELGEISIOL, MAE'N GYFAREDDOL O'R DECHRAU"
Mojo ★★★★

LLUN GAN CHRISTOFFER ASKMAN





LLUN GAN TIMOFEY MATVEEV

**Iau 17 Hydref 7.45pm**

## CYNGERDD GWOBR LLYSGENNAD Y SWISTIR: AKMI DUO

Mae Gwobr eleni yn mynd i AKMI Duo sydd wedi'u lleoli yn y Swistir, ac yn cynnwys y sacsoffonydd o Ffrainc Valentine Michaud a'r pianydd o Lithwania Akvilé Sileikaité. Gwnaethant gwrdd pan oeddent yn astudio am eu graddau Meistr ym Mhrifysgol y Celfyddydau Zurich, lle gwnaeth eu cyfeillgarwch a'u hangerdd am gerddoriaeth fodern a chyfoes eu hysbrydoli i ffurfio AKMI Duo.

**Tocynnau £12 (yn cynnwys rhaglen a gwydraid o win pefriog o'r Swistir yn ystod yr egwyl) Consesiynau ar gael**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Sul 20 Hydref 2pm**

## RAGAS PRYNHAWN: DEBASHISH BHATTACHARYA

Bydd Debashish Bhattacharya, a enwebwyd ddwywaith am Wobr Grammy a'n enillydd Gwobr Songlines a gwobr BBC, yn dod â'i hapêl eang i'w uniad dyfeisgar o ragas Indiaidd clasurol a cherddoriaeth blues y gorllewin. Gan gofleidio'r gitâr lithro Hawäiaidd o gyfnod ei blentyndod yn y 60au, mae Debashish wedi arloesi arddull unigryw o gitâr lithro Hindwstani ac wedi cael cydnabyddiaeth fyd-eang, a chyfareddu cynulleidfaoedd ac artistiaid am dros bedwar degawd gyda'i gyfuniad unigryw o ragas Indiaidd ac arddulliau gorllewinol.

Heddiw bydd ei bartneriaid triawd yn gwmni i Debashish, sef y lleisydd **Anandi Bhattacharya** a enwebwyd am Wobr Songlines a'r chwaraewr seinfwrdd o fri, **Tanmoy Bose**.

'Dawn artistig ystwyth... gyda'r ysbryd a'r synhwyrau yn llifo'
*Daily Telegraph*

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**
**20/20**



LLUN GAN KAROL CZAJKOWSKI. INSET LLUN GAN SHAMIDIP MUKHERJEE



**Iau 24 Hydref 7.45pm**

## A TIME REMEMBERED DATHLU 90 MLYNEDD GENI BILL EVANS *FT.* NORMA WINSTONE A NIKKI ILES

**Norma Winstone** llais
**Nikki Iles** piano
**Stan Sulzmann** sacsoffon
**Dave Green** bas

Bill Evans oedd un o bianyddion mwyaf eiconig a blaengar y ganrif ddiwethaf. Gwthiodd ei sain gynnes, ynghyd â'i allu harmonig a rythmig datblygedig, ffiniau chwarae jazz i lefelau newydd ac mae'n dal i ysbrydoli cerddorion heddiw. Heno bydd pedwar o gerddorion gorau'r DU, y dylanwadwyd yn gryf arnynt gan ei gerddoriaeth, yn dathlu 90 mlynedd geni Bill a'i dras Gymreig mewn noson hyfryd o atgofion personol a hanesion sy'n archwilio ei gerddoriaeth a'i fywyd.

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**
**20/20**



LLUN GAN MIKE RICHARDS

**Gwe 25 Hydref 7.30pm**

## AND THE SUN STOOD STILL

**Cerddorfa Symffoni a Corws Coleg Brenhinol Cymru**

**Sarah Jenkins** And The Sun Stood Still
**Tchaikovsky** Concerto Piano Rhif 1
**Fauré** Offeren

**Yuki Minami** piano
**David Jones** arweinydd

Dyfnaf llyn, llyn llonydd. Gŵr tawel oedd Gabriel Fauré, ac nid oes dicter na ffyrnigrwydd yn ei Offeren atgofus - dim ond peth o'r gerddoriaeth gorawl hyfrytaf a ysgrifennwyd erioed. Mae'n ddiweddglo tangnefeddus i gyngerdd o eithafion gwefreiddiol, boed hynny ar ffurf y enillydd Cystadleuaeth Concerto CBCDC Yuki Minami yn codi'r to yng Nghoncerto hynod boblogaidd Tchaikovsky, neu dirwedd aeafol drawiadol, newydd ei phaentio gan y cyfansoddwr ifanc gwobrwyedig o CBCDC Sarah Jenkins.

**Tocynnau £15 D25**
**Neuadd Dewi Sant**
029 2087 8444
www.stdavidshallcardiff.co.uk

Mae Cerddorfaoedd yng Ngholeg Brenhinol Cymru wedi eu gefnogi gan Partneriaeth John Lewis

**Sad 26 Hydref 7.45pm**

## SINFONIA CYMRU *GYDA* JAMES CRABB

Os oeddech chi'n credu mai dim ond consertina oedd yr acordion, yna James Crabb yw'r gŵr i newid eich meddwl. Mae ei chwarae yn cyfuno meistrolaeth dechnegol gyda sensitifrwydd cerddorol cywrain ac yn i ddwylo ef, mae lle'r offeryn yn y gerddorfa yn teimlo'n gwbl naturiol. Gosodwch ef ochr yn ochr â chwaraewyr ifanc hynod dalentog Sinfonia Cymru, mewn rhaglen sy'n cynnwys Piazzolla, Vivaldi a Arvo Pärt ac mae gennych rysáit ar gyfer mwynhad cerddorol pur.

**Tocynnau £18 | £16 dros 60 oed £12 dan 35 oed**
**Neuadd Dora Stoutzker**



LLUN GAN CHRISTOFFER ASKMAN




**Mer 30 Hydref 7.30pm**

## THE ALBION QUARTET

**Freya Waley-Cohen** Dust
**Beethoven** Grosse Fuge Op.133
**Shostakovich** Pedwarawd Llinynnol Rhif.3 yn F, Op.73

Bydd gan rai darnau o gerddoriaeth wastad rhywbeth newydd i'w ddweud. Mae Trydydd Pedwarawd Shostakovich yn cuddio ei neges y tu ôl gomedi gwyllt - oherwydd wyddech chi byth pwy oedd yn gwrando yn Rwsia dan deyrnasiad Stalin. Ac mae Grosse Fuge enfawr Beethoven yn debyg i driathlon cerddorol: yr ymarferiad llawn egni eithaf ar gyfer y meddwl a'r enaid. Hyn i gyd a rhywbeth newydd sbon hefyd gan Bedwarawd Cyswllt CBCDC.

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Iau 31 Hydref 7.30pm**

## LLŶR WILLIAMS: LLUNIAU MEWN CERDDORIAETH 2

**Schumann** Papillons, Op.2
**Janáček** On an Overgrown Path
**Britten** Holiday Diary, Op.5
**Liszt** 5 Études

Ni fydd gwyliau ym Mhrestatyn fyth yr un fath eto! Gwyliau glan y môr yng Ngogledd Cymru oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer Holiday Diary hoenus Britten – dim ond un cyrchfan ar daith odidog Llŷr Williams sy'n mynd o fyd ffantasi Robert Schumann i dirweddau rhamantaidd disglair Liszt, gydag amdaith i lawr 'Overgrown Path' llawer tywyllach i enaid llawn dioddefaint Leos Janáček.

**Tocynnau £20–£24**
**Neuadd Dora Stoutzker**



**15% I FFWRDD**

**OS BYDDWCH YN ARCHEBU TOCYNNAU AR GYFER 3 NEU RAGOR O GYNGHERDDAU YNG NGHYFRES LLUNIAU MEWN CERDDORIAETH LLŶR WILLIAMS**

Gwe 1 Tachwedd 7.30pm

## LONDON SINFONIETTA

**TURNING POINTS: THE EMERGENCE OF MINIMALISM**

O ddechreuadau arbrofol yng nghroglofftydd ac orielau Efrog Newydd, erbyn hyn mae Lleiafsymiaeth yn brif gynhaliwr cerddoriaeth gyfoes, ei ddylanwadau yn ymestyn ymhell ac i feysydd ffilm, dawns a llenyddiaeth. Mae'r London Sinfonietta wedi'i chysylltu'n agos i ddehonglwyr gorau'r genre, Steve Reich a Philip Glass, a bydd y noson hon o archwilio yn cloddio dan wyneb gweithiau'r cyfansoddwyr hyn i ddatgelu mwy am y mudiad cyfareddol hwn drwy ffilm a pherfformiad byw.

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**

**Neuadd Dora Stoutzker**

20/20



LLUN GAN JEFFREY HERMAN

"TALENT TU HWNT I'W HOEDRAN"

Mark Radcliffe, BBC Radio 2 Folk Show

"HYNAFOL A MODERN, DWYS AC UNIONGYRCHOL AR YR UN PRYD"

The Guardian



Sad 2 Tachwedd 8pm

## BRÌGHDE CHAIMBEUL: THE REELING

Mae'r pibydd Brìghde Chaimbeul o'r Ynys Hir yn un o sêr y byd cerddoriaeth werin sy'n tyfu'n gyflym yn ei phoblogrwydd. Rhyddhawyd ei halbwm cyntaf *The Reeling*, a gynhyrchwyd gan Aidan O'Rourke o Lau, yn gynharach eleni gan dderbyn canmoliaeth uchel y beirniaid a bydd y perfformiad unawdol cynnes hwn wedi ysbrydoli, yn ôl Brìghde, 'gan y cysylltiad dwfn rhwng canu'r pibau, caneuon Gaeleg a canntaireachd, a chysylltiadau byd-eang chwarae'r pibau a'r bobl sy'n canu ac yn chwarae i adrodd storiâu.'

**Tocynnau £12 | £10 consesiynau**

**Theatr Richard Burton**

20/20



Sad 2 Tachwedd 5pm

## BAND MAWR CBCDC: YSBRYD '49

Fel rhan o dymor dathlu pen-blwydd y Coleg yn 70 oed bydd ein Band Mawr a'n cantorion yn mynd â chi ar daith gerddorol yn ôl i'r flwyddyn y sefydlwyd y Coleg. Gan ddathlu anterth y cyfnod jazz a swing, bydd gan gyngerdd heno flas aristocrataidd iawn ac yn cynnwys cerddoriaeth Duke Ellington, Count Basie a hefyd y Prydeiniwr Ted Heath, a ysbrydolwyd gan Miller. Perfformiodd y trombonydd a'r arweinydd band Ted Heath ym Mherfformiad dan Orchymyn y Brenin 1949 ar gyfer Brenin George VI a gwnaeth ei fand o Brydeinwyr chwarae cerddoriaeth gefndir i Ella Fitzgerald a Lena Horne ac arloesi Sunday Night at The Palladium.

**Tocynnau £12 | £10 consesiynau D25**

**Neuadd Dora Stoutzker**

Cefnogir gan y Gronfa Gyswllt

LLUN GAN TRAVIS MAGEE





Mer 6 Tachwedd 7.30pm

## I, CLARA: CLARA SCHUMANN – A LIFE IN MUSIC

**Lucy Parham** piano
**Patricia Hodge** adroddwr

Mae *I, Clara* a grëwyd gan Lucy Parham i ddathlu 200 mlynedd geni Clara Schumann ym 1819 yn adrodd hanes bywyd rhyfeddol fenyw arbennig yn ei geiriau ei hun. Wedi'u dyfynnu o lythyrau a dyddiaduron, bydd geiriau'r actores Patricia Hodge wedi'u britho gan berfformiadau byw o weithiau Clara a Robert Schumann, Brahms, Mendelssohn a Chopin gan y pianydd enwog Lucy Parham.

**Tocynnau £22**
**£20 consesiynau U25**

**Neuadd Dora Stoutzker**



"UN O'R DIGWYDDIADAU MAE'N RHAID EU GWELD YN Y CALENDR CERDDOROL"

BBC Music Magazine

# PENWYTHNOS SUPERBRASS

**Gwe 8 Tachwedd 5.30pm–7pm**

## AMSERJAZZTIME – NOSON ARBENNIG O CHWARAE PRES

Yn cynnwys Gordon Campbell a llu o gerddorion jazz CBCDC.

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**

**Gwe 8 Tachwedd 7.30pm**

## CERDDED YMHLITH ARWYR

**Band Pres Coleg Brenhinol Cymru**

Y cynnwys yr unawdydd gwadd Mike Lovatt, yr arweinyddion Bob Childs a Paul Fisher, a gwledd o gerddoriaeth wych yn amrywio o Karl Jenkins i Louis Armstrong.

**Tocynnau £14**
**£12 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Sad 9 Tachwedd 10.30am–4pm**

## GWEITHDAI PRES

Diwrnod llawn o weithdai sy'n agored o chwaraewyr pres hŷn ac iau. I wneud cais cysylltwch â **junior.conservatoire@rwcmd.ac.uk**

**Mynediad am Ddim**

**Sul 10 Tachwedd 2pm**

## SUPERBRASS

Cyfle prin i glywed y grŵp hwn o rai o'r chwaraewyr pres ac offerynnau taro gwychaf byd cerddoriaeth broffesiynol  mewn rhaglen ddyrchafol o ffefrynnau pres.

**Tocynnau £15**
**£13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Sul 10 Tachwedd 3.30pm**

## BEER, BRASS & BRATWURST

Ymunwch ag Ensemble Tiwba CBCDC ar gyfer parti llawn hwyl i ddwyn y penwythnos pres gwych hwn i ddiweddglo addas!

**Mynediad am Ddim**
**Cyntedd**

### TOCYN ARBENNIG

Gallwch brynu tocyn ar gyfer y ddau berfformiad yn y Neuadd am **£25 | £22 consesiynau. Rhaid eu prynu yn yr un trafodiad** ac yn amodol ar argaeledd.

SUPERBRASS

Mae gwaith Superbrass yn y Coleg wedi ei gefnogi gan y **Mosawi Foundation**









**Llun 11 Tachwedd 7.30pm**

## AARON PARKS: LITTLE BIG

**Aaron Parks** piano **Greg Tuohey** gitâr
**DJ Ginyard** bas **Tommy Crane** drymiau

Gellir ystyried Little Big, y band newydd gan y pianydd/cyfansoddwr o America Aaron Parks, mewn rhai ffyrdd fel parhad o'r trywydd a grëwyd ar ei record *Invisible Cinema* o 2008 gydag ymrwymiad dyfnach i ysgrifennu caneuon melodaidd, rythmau modern, ac adrodd storïau ymdrwythol. Daw aelodau'r band â'u profiadau nid yn unig o gerddoriaeth jazz a byrfyfyr ond hefyd byd electronica, R&B, indie pop, alt-country, a llawer mwy. Dyma gerddoriaeth hylifol ei genre sy'n creu ei byd ei hun.

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**
**20/20**

**Maw 12 Tachwedd 7:45pm**

## BAND CORY

Bydd Band Cory yn dychwelyd i'r Coleg yn Bencampwyr Ewrop 2019, a'r Band Pres a raddiwyd y gorau yn y byd am y ddeuddegfed flwyddyn o'r bron, ac yn ffres o'i daith yn UDA'r wythnos flaenorol. Bydd y rhaglen yn cynnwys repertoire rhyfeddol ddiweddaraf Cory a pherfformiadau disglair gan ei unawdwyr o'r radd flaenaf, a bydd cyfle i rag-glywed ei raglen Pres mewn Cyngerdd newydd sbon, a fydd yn eich cludo ar daith sy'n cyffwrdd â'r holl synhwyrau.

**Tocynnau £15**
**(Dan 18 oed £10)**
**Neuadd Dora Stoutzker**






**Gwe 15 Tachwedd 7.30pm**

## GALA OPERA: 70 MLYNEDD COLEG BRENHINOL CYMRU

***Gyda* Cherddorfa WNO**
**Carlo Rizzi** arweinydd

Cyngerdd gala arbennig iawn i ddathlu pen-blwydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn 70 oed. Ymunwch â'r Maestro Rizzi, Cerddorfa'r WNO a chantorion ifanc rhagorol Ysgol Opera David Seligman mewn noson ddisglair o olygfeydd ac ariâu sy'n arddangos doniau operatig y Coleg Brenhinol.

**Tocynnau £18 | £16 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Sad 16 Tachwedd 7.30pm**

## AKA TRIO

**Cynhyrchiad Theatr Mwldan**

Uwchgynhadledd gerddorol ryngwladol rhwng tri meistr byd-enwog: Antonio Forcione, Seckou Keita ac Adriano Adewale. Maent yn dod o dri chyfandir gwahanol - Ewrop, Affrica a De America – cafodd Antonio, Seckou ac Adriano eu magu mewn tri math gwahanol o dirwedd, yn siarad tair iaith wahanol, ac fe'u ffurfiwyd gan dri diwylliant a thraddodiad cerddorol gwahanol. Gyda'i gilydd maent yn creu cydweithrediad cerddorol i roi hwb i'r enaid.

**Tocynnau £18 D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**
www.aka-trio.com





**Iau 21 Tachwedd 7.30pm**

## KIT DOWNES: DREAMLIFE OF DEBRIS

Am ei ail recordiad fel arweinydd ar gyfer ECM records - *Dreamlife of Debris* - mae'r pianydd, organydd a chyfansoddwr **Kit Downes** wedi dwyn ynghyd rhai o'i gyfranwyr cerddorol agosaf, **Tom Challenger** (sacsoffon), **Ingebjørg Loe Bjørnstad** (llais) a **Phelan Burgoyne** (drymiau), mewn casgliad o weithiau wedi ei ysgrifennu ar gyfer byrfyfyr. Mae melodïau ffurf hir yn gwrthdaro â thechnegau estynedig cyfrin a recordiadau maes dirywiedig, gan greu set o ddarnau sy'n archwilio ein cysylltiad emosiynol i wrthrychau, a sut y gallant nhw gysylltu ni gyd at ein gilydd.

**Tocynnau £15 | £13 consesiynau D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**
**20/20**

CERDDORIAETH TACHWEDD 2019

**Sul 24 Tachwedd 11am**

## CYFRES PIANO RHYNGWLADOL STEINWAY: BARRY DOUGLAS

**Tchaikovsky** Sonata Fawr yn G, Op.37
**Tchaikovsky** Meditation, Op.27, Rhif 5
**Rachmaninov** Moments Musicaux, Op.16

I'r pianydd o Iwerddon Barry Douglas- enillydd Cystadleuaeth Piano Tchaikovsky Moscow - mae perfformio cerddoriaeth o Rwsia yn ymwneud ag 'argyhoeddiad llwyr, ymrwymiad llawn angerdd i'r gerddoriaeth'. A boed hynny'n fawredd sonata na chwaraeir yn aml gan Tchaikovsky neu Moments Musicaux telynegol a meistrolgar Rachmaninoff, dyna'n union a geir ganddo yn y datganiad llawn egni cwbl Rwsiaidd hwn.

**Tocynnau £16–£20 D25**
**Neuadd Dora Stoutzker**






LLUN© BEAR HUNT FILMS LIMITED MMXVI

**Sad 30 Tachwedd 2pm**
**Sul 1 Rhagfyr 2pm**
**Maw 2 Rhagfyr 10am a 12pm**

3+ OED

## WE'RE GOING ON A BEAR HUNT – Y FFILM: YN FYW MEWN CYNGERDD

Dyma gyfle i wylio'r addasiad ffilm a animeiddiwyd â llaw o'r llyfr plant poblogaidd, a ysgrifennwyd gan Michael Rosen a'i ddarlunio gan Helen Oxenbury, *We're Going on a Bear Hunt*. Bydd trac sain gerddorfaol byw a gyfansoddwyd a'i harweiniwyd gan Stuart Hancock, wedi'i berfformio gan Gerddorfa Siambr Coleg Brenhinol Cymru, yn llunio cyfeiliant i'r ffilm.

Dilynwch anturiaethau diarswyd y teulu o blant Stan, Katie, Rosie, Max, a'r babi a Rufus, sy'n mynd ar daith i chwilio am eirth, ac yn benderfynol o ddal yr un fawr.

**Tocynnau £10 (Ysgolion £5)**
**Neuadd Dora Stoutzker**

Cynhyrchiad Lupus Films mewn cydweithrediad â Bear Hunt Films a Walker Productions ar gyfer Channel 4, Universal Pictures a Herrick Entertainment gyda chefnogaeth Creative Europe – rhaglen MEDIA yr Undeb Ewropeaidd.



Iau 5 Rhagfyr 7.45pm
Gwe 6 Rhagfyr 2.30pm
a 7.45pm

## NADOLIG AR BROADWAY

**Unawdwyr Sioe Gerdd Coleg Brenhinol Cymru**

**Cerddorfa Gyngerdd Coleg Brenhinol Cymru**

Mae ein dathliad o Nadolig ar Broadway yn dychwelyd i lwyfan Neuadd Dora Stoutzker am dri pherfformiad arbennig o glasuron bythol a repertoire mwy cyfoes. O *We Need a Little Christmas* i *Baby It's Cold Outside* gyda'r holl addurniadau, ni ddylid colli'r dathliad llawn steil, disglair ac unigryw hwn o'r Nadolig ar Broadway!

**Tocynnau £18 | £16 consesiynau**
**Neuadd Dora Stoutzker**

Gwe 6 Rhagfyr 1pm

## PRES NADOLIGAIDD COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

**Dr Robert Childs** arweinydd

Mae'r cyngerdd poblogaidd i'r teulu hwn yn dychwelyd i Neuadd Dewi Sant ar gyfer awr ginio arall llawn carolau traddodiadol a ffefrynnau'r ŵyl, a bydd yn sicr i godi awydd arnoch i ymuno yn y canu. Dihangfa berffaith rhag y tywydd gaeafol a rhuthr y siopa Nadolig!

**Tocynnau £5–£7 (consesiynau ar gael)**
**Neuadd Dewi Sant**
029 2087 8444 | www.stdavidshallcardiff.co.uk





Sad 30 Tachwedd a
Sul 1 Rhagfyr 1pm
Llun 2 Rhagfyr 11am
Maw 3 Rhagfyr
Mer 4 Rhagfyr
ac Iau 5 Rhagfyr 6pm

## CAFFI NADOLIG

Ymunwch â ni yn y cyntedd i glywed ffefrynnau'r ŵyl yn cael eu chwarae o amgylch y goeden Nadolig. Ewch i'r wefan i gael rhagor o wybodaeth.

**Mynediad am Ddim Cyntedd**





Gwe 20 Medi 1.15pm

## ENSEMBLEBASH

Dewch i deimlo'r sŵn: 'Mae'n rhaid mai cyngerdd gan ensemblebash oedd hwn sy'n gwneud i chwarae offerynnau taro fod yr alwedigaeth fwyaf cŵl, mwyaf swnllyd a doniolaf erioed' meddai *The Times* yn dilyn cyngerdd gan y meistri offerynnau taro ensemblebash. Byddant yn eich cludo o feddwl-luniau gwych John Cage i ddathliad rhythmig yn Senegal - y cyfan mewn un awr ginio.

**Tocynnau £6 ymlaen llaw | £8 ar y dydd**
**Neuadd Dora Stoutzker**



Mer 25 Medi
1.15pm

## BYD BENDIGEDIG

**Pres Symffonig ac Offerynnau Taro Coleg Brenhinol Cymru**

Mae gan gerddorion hefyd ddyletswydd i warchod y blaned - a heddiw bydd Pres Symffonig ac Offerynnau Taro Coleg Brenhinol Cymru yn troi'n wyrdd, mewn cyngerdd sydd â naws amgylcheddol iddo. Bydd yn cynnwys offerynnau pres a tharo newydd sbon a grëwyd yn arbennig ar gyfer y digwyddiad, a rhaglen egnïol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, mae'n gyngerdd awr ginio i ysbrydoli yn ogystal â diddanu. Nid yw cynaliadwyedd erioed wedi swnio mor dda!

**Tocynnau £6 ymlaen llaw**
**£8 ar y dydd**
**Neuadd Dora Stoutzker**

Cefnogir gan Hern & Crabtree

Working to become Dementia Friendly

Cadwch lygad am **ein cynigion tocynnau gyda chacen a thê hufen**

Gwe 27 Medi
1.15pm

## TRIAWD CORN: BRAHMS A LIGETI

**Benjamin Goldscheider** corn
**David Adams** feiolin
**Robin Green** piano

Yn nyfnderoedd y Fforest Ddu, credai Brahms iddo glywed alaw - a datblygodd y darn hwnnw o gân yn Driawd Corn, un o'i gampweithiau mwyaf personol a thelynegol. Bydd Ben Goldschieder, chwaraewr corn ifanc mwyaf cyffrous Prydain yn ymuno â dau gydweithiwr o CBCDC ar gyfer y darn, ac yn dilyn hyn gyda theyrnged wych Ligeti i Brahms: cerddoriaeth angerddol a thelynegol gan ddychymyg gwyllt.

**Tocynnau £6 ymlaen llaw**
**£8 ar y dydd**
**Neuadd Dora Stoutzker**



LLUN GAN KAUPO KIKKAS



Mer 2 Hydref 1.15pm

## MYFYRDODAU'R UGEINFED GANRIF

**Chwyth Siambr Coleg Brenhinol Cymru**

Nid yw cerddoriaeth o Brydain fyth yn union yr hyn rydych chi'n ei ddisgwyl. Ond gydag ensemble chwyth mae unrhyw beth yn bosibl, ac yn ystod yr awr ginio hon fe glywn ddarn o 'brydferthwch cerddorol' pur gan gyfansoddwr o Northampton, duw'r gwynt ag adenydd porffor wedi'i ddeffro gan gyn canwr cerddoriaeth yr enaid, gydag ailddyfeisied hudol o gân o'r ail ganrif ar bymtheg gan y gŵr a ysgrifennodd y sgôr ar gyfer *Four Weddings and a Funeral*.

**Tocynnau £6 ymlaen llaw**
**£8 ar y dydd**
**Neuadd Dora Stoutzker**

**Cadwch lygad am ein cynigion tocynnau gyda chacen a thê hufen**

Gwe 4 Hydref 1.15pm

## RHODRI DAVIES *Y DELYN*

Mae traddodiad yn ymwneud â'r dyfodol yn ogystal â'r gorffennol, ac nid dim ond canu'r delyn y mae Rhodri Davies, telynor ac artist gweledol a anwyd yn Abertawe, yn ei wneud: mae'n dychmygu ei gorffennol, ei phresennol a'i photensial ar gyfer y dyfodol, gan agor golygfeydd newydd trawiadol a chreu seiniau na chlywsoch eu tebyg. Heddiw bydd yn chwarae cerddoriaeth gan Yoko Ono a Carole Finer - yn ogystal â phremière byd llawn gweledigaeth gan y rhyfeddol Adaya Godlevsky.

